# Croeso Cymru
# Newyddion diwydiant

**Newyddion i'r Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru**

I gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr, cliciwch yma.

Yn cael trafferth i weld yr e-bost yma, neu i'w rannu, edrychwch arno ar-lein.

**20 Medi 2021**



## Y Pethau Pwysig yn cyflwyno profiadau cofiadwy

Mae'r haf prysur i Economi Ymwelwyr Cymru wedi dangos pwysigrwydd hanfodol seilwaith twristiaeth o ran darparu profiad o safon i ymwelwyr.

Er mwyn helpu sefydliadau i gynllunio ymlaen ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae Y Pethau Pwysig yn gronfa newydd ledled Cymru sy'n cefnogi sefydliadau cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau dielw i gyflawni gwelliannau sylfaenol i seilwaith twristiaeth ar raddfa fach.

Mae 26 o brosiectau wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am gyllid ar gyfer y gronfa £2.4 miliwn ar gyfer 2021-2022.

Cefnogwyd prosiectau seilwaith twristiaeth ar raddfa fach gan awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a'r trydydd sector a - pob un yn helpu i sicrhau bod pob ymwelydd â Chymru yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol eu harhosiad.

Mae'r prosiectau'n cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan, gwell cyfleusterau toiled a pharcio ceir, cyfleusterau Mannau Newid hygyrch a gwell arwyddion a phaneli dehongli - a siglen dros raeadr.

Dywedodd Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething:

> "Yn dilyn yr haf prysur a gawsom yma yng Nghymru, rydym wedi gweld y rhan bwysig sydd gan amwynderau twristiaeth lleol ar wneud taith yn un gofiadwy. Mae'r cyfleusterau hyn yn aml yn mynd heb sylw ond maent yn rhan bwysig o brofiadau pobl pan fyddant yn ymweld â Chymru ac maent hefyd o fudd i'r rhai sy'n byw yn yr ardal. Rwy'n falch iawn ein bod yn gallu cefnogi'r sefydliadau hyn i wella profiad ymwelwyr yn eu hardaloedd."

Mae 'lle newid' modern gyda chyfleusterau i bobl ag anableddau, toiledau cyhoeddus wedi'u hadnewyddu a gwelliannau mynediad ar eu ffordd i atyniad Aqua Splash poblogaidd Glan Môr Aberafan.

Dywedodd y Cynghorydd Annette Wingrave, Aelod Cabinet Cyngor Castell-nedd Port Talbot dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy:

> "Y bwriad yw, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, y bydd y toiledau cyhoeddus a'r lle newid yn y lleoliad hwn ar agor i'r cyhoedd drwy'r flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod Glan Môr Aberafan yn parhau i fod yn gyrchfan sy'n hygyrch i ymwelwyr anabl a'u teuluoedd drwy gydol y flwyddyn."

Bydd tri o safleoedd atyniadau ymwelwyr Dŵr Cymru yn elwa o gyllid Pethau Pwysig

Bydd Uned Lleoedd Newid hefyd yn flaenoriaeth i Dŵr Cymru fel rhan o brosiect i ddatblygu Hwb Beicio ar eu Safle Cwm Elan. Mae Dŵr Cymru hefyd wedi derbyn cyllid ar gyfer datblygu Siglen y Sgydau ac chelf Dŵr yn Llyn Brenig. Mae Siglen y Sgydau yn defnyddio cannoedd o jetiau dŵr i greu effaith rhaeadr y gellir ei rheoli sy'n cynnwys siglenni a gellir ei haddasu hefyd i fynd â defnyddwyr â symudedd cyfyngedig, gan gynnwys cadeiriau olwyn. Bydd Dŵr Cymru hefyd yn datblygu anturiaethau awyr agored i bawb yng Nghronfeydd Lliw gyda gwelliannau mynediad a meysydd parcio, gorsaf weithgareddau a thaflenni llwybrau natur yn ogystal â gosod offer chwarae naturiol.

Dywedodd Prif Weithredwr Dŵr Cymru, Peter Perry:

> "Gyda chynifer o bobl yn aros adref am eu gwyliau yr haf hwn, rydym wedi gweld mwy o bwysau mewn nifer o'n hatyniadau ymwelwyr a'n mannau prydferth lleol. Felly, rydym yn

hynod ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am y cymorth gwerthfawr, a fydd yn ein helpu i wella cyfleusterau a darparu profiadau mwy cynhwysol i ymwelwyr o bob oed a gallu.”

---

# Gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch COVID-19

**Gan fod pob safle yn wahanol, dylai busnesau ddarllen pob canllaw. Mae’r hyn yn parhau i gael eu diweddaru felly gwiriwch hwy yn rheolaidd am yr wybodaeth ddiweddaraf.**

- **Lefel rhybudd 0 - Canllawiau:**
  - Canllawiau i fusnesau, cyflogwyr, sefydliadau a threfnwyr gweithgareddau a digwyddiadau
  - Canllawiau i'r cyhoedd
- Lefel rhybudd 0:
  - Cwestiynau cyffredin
  - Crynodeb
  - Canllawiau a gwasanaethau
- Cadw’n ddiogel yn ystod brigiad COVID-19 (hawdd ei ddeall)
- Cardiau Gweithredu Mesurau Rhesymol
- **Cynllun Adfer ar gyfer y sector Twristiaeth, Lletygarwch a Digwyddiadau**: Dewch i lunio’r dyfodol
- Canllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion
- Brechiad COVID-19: pecyn hyrwyddo i gyflogwyr
- Teithio: coronafeirws - Canllawiau a Gwasanaethau
- Diogelu Cymru yn y Gweithle
- **Cynllun rheoli’r coronafeirws:** Lefel rhybudd 0 (sero)
- Lefelau rhybudd COVID-19
- Gwybodaeth Coronafeirws
- Addo. Gwna addewid dros Gymru
- Barod Amdani

---

# Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf drwy newyddion y diwydiant

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu’r cymorth a’r sicrwydd sydd eu hangen ar fusnesau yn ystod y cyfnod anodd, ddigynsail hwn, ac rydyn ni wedi cyhoeddi nifer o fwletinau sy’n gysylltiedig â’r coronafeirws (COVID-19). Mae’r bwletinau ar gael ar dudalen Bwletinau Coronafeirws i’r Diwydiant Twristiaeth (COVID-19).

---

**Mae Busnes Cymru yn rhoi cymorth a chyngor wedi'i deilwra i fusnesau ynglŷn â delio â coronafeirws, o gynllunio ariannol a chynllunio cadwyni cyflenwi i gael cyngor ar faterion staffio. Cynghorir busnesau twristiaeth a rhanddeiliaid yng Nghymru sy'n dymuno cael canllawiau penodol i ymweld â** gwefan Busnes Cymru **neu ffonio llinell gymorth busnes**

**Cymru ar 03000 6 03000, ac ymweld yn rheolaidd gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael y wybodaeth ddiweddaraf am iechyd y cyhoedd i chi, eich staff a'ch ymwelwyr.**

---

Methu gweld yr ebost hwn? Ewch ar-lein